# WILLIAMS, CHARLES (1633 - 1720), cymwynaswr i Gaerllion-ar-Wysg, ei dref enedigol.

**Enw:** Charles Williams
**Dyddiad geni:** 1633
**Dyddiad marw:** 1720
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cymwynaswr
**Maes gweithgaredd:** Dyngarwch
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Bu mor anffodus a lladd cefnder iddo (Morgan o Benrhos) mewn gornest, â gorfu iddo ffoi o'r wlad. Aeth i Smyrna, a throi at fasnach yno ac mewn gwledydd eraill, megis Rwsia, a chasglodd gyfoeth dirfawr. Llwyddodd John Hanbury o Bont-y-p l (gweler dan ' Hanbury ') i rwyddhau'r ffordd iddo i ddychwelyd i Brydain, yn nheyrnasiad William III, ond ymddengys iddo drigiannu yn Llundain, heb dynnu sylw ato'i hun, eithr gan farchnata mewn stociau a rhoi benthyg arian i'r Llywodraeth - a chwanegu at ei gyfoeth. Bu farw'n ddibriod, 29 Awst 1720, 'yn 87 oed'; pan wnaeth ei ewyllys (Ionawr 1717) yr oedd yn byw yn Covent Garden. Yn ei ddiolchgarwch i Hanbury, yr oedd wedi trefnu i £70,000 fynd i Charles, pedwerydd mab Hanbury, ar yr amod iddo chwanegu ' Williams ' at ei gyfenw pan ddelai i oed; gwnaethpwyd hynny yn 1729; gweler dan Hanbury-Williams, Syr Charles. Yn ei ewyllys, gadawodd £4,000 i sefydlu ysgol elusennol i 30 o fechgyn a 20 o enethod, yng Nghaerllion-ar-Wysg, ac i dalu am eu prentisio hyd y caniatâi'r gwaddol; adeiladwyd yr ysgoldy yn 1724. Ymhellach, mewn atodiad i'r ewyllys (23 Awst 1720), gadawodd £3,000 arall at atgyweirio'r eglwys yno ac at wella'r ffyrdd yn y dre ac ati.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


W. Coxe, *An historical tour in Monmouthshire* (1801) (arg. 1904), 104, 207

Bradney, *A History of Monmouthshire*, I, ii, 438

adroddiad llawn o'r elusennau yn *Report on Charities ('Monmouth')*, 1815-39 ('Monmouth'), 450-60


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 378146094139800330248

Wikidata: Q20804663


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu